Swyddog y Myfyrwyr Anabl

Yn cynrychioli myfyrwyr sydd ag anabledd neu sy'n niwrowahanol. Gan redeg ymgyrchoedd, cynnig cymorth i fyfyrwyr a gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth, maen nhw'n gweithio gyda swyddogion eraill i sicrhau bod anghenion grwpiau penodol o fyfyrwyr yn cael eu diwallu. Hyn yn ogystal ag amddiffyn ac ymestyn cydraddoldeb ar gyfer pob myfyriwr sy'n hunan-ddiffinio neu'n uniaethu â'r rôl.

Dyma fydd cyfrifoldebau Swyddog(ion) y Myfyrwyr Anabl:

1. Cynrychioli myfyrwyr yn hunan-ddiffinio fel anabl ar faterion sy'n berthnasol iddyn nhw.
2. Cydlynu ac arwain ymgyrchoedd ar faterion sy'n perthyn i anghenion myfyrwyr Anabl (lle bo hynny'n briodol).
3. Gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth a phwynt cyswllt i fyfyrwyr Anabl.
4. Cynghori UMAber ar ffyrdd o wella'i waith yn unol ag anghenion myfyrwyr Anabl.
5. Gweithio gyda myfyrwyr, swyddogion llawn-amser a swyddogion eraill ledled Cymru a'r DU i sicrhau bod anghenion myfyrwyr Anabl yn cael eu cynrychioli a bod amcanion Ymgyrch y Myfyrwyr Anabl yn cael eu hyrwyddo.

Cyfrifoldebau'r holl Swyddogion Gwirfoddol

1. Mynychu holl gyfarfodydd priodol Undeb Aber a'r Brifysgol gan gynnwys Cyfarfodydd y Senedd a Pharthau.
2. Ymddwyn mewn modd proffesiynol ac addas bob amser.
3. Sicrhau bod yr holl benderfyniadau a gweithredu'n cydymffurfio â chyfansoddiad UMAber a pholisïau cyfredol Undeb Aber.
4. Bod yn barod i adrodd ar gynnydd yr hyn sydd yn eu cylch gorchwyl.
5. Cyfarfod â chydlynu'n rheolaidd â Swyddogion Ymddiriedolwyr ac aelodau staff.

Ni fwriedir i Bortffolios y Swyddogion Gwirfoddol (y cyfeirir atynt hefyd fel Swyddogion “Rhanamser”) fod yn rhestrau holl-gynhwysfawr o'r gweithdrefnau a thasgau a ddaw i ran y swyddog(ion) hynny. Serch hynny, mae'n cynnwys prif ddisgwyliadau UMAber o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau deilydd y swydd.

Am ragor o wybodaeth: Cyfansoddiad